

Metolazone – Newid Brandiau

Gwybodaeth i gleifion

Rydych yn cael eich trin â metolazone, diwretig thiasid (tabled dŵr). Defnyddir metolazone i leihau pwysedd gwaed ac mae'n helpu i gael gwared ar yr hylif ychwanegol sy'n cronni yn eich corff pan fydd gennych broblemau'r galon neu'r arennau.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dim ond yn y DU y mae Metolazone wedi bod ar gael fel cynnyrch wedi'i fewnforio. Mae cynnyrch gyda'r enw brand Xaqua[®] bellach wedi'i drwyddedu ac mae ar gael yn y DU. Oherwydd bod gan Xaqua[®] drwydded yn y DU dylid ei ragnodi yn lle'r cynhyrchion a fewnforiwyd oni bai ei fod yn anaddas. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu newid i Xaqua[®].

Sut bydd y newid hwn yn effeithio arnoch chi

O hyn ymlaen, bydd brand metolazone yr ydych yn ei gymryd yn cael ei ysgrifennu ar eich presgripsiynau.

- Os ydych chi newydd ddechrau cymryd tabledi metolazone byddwch yn cael presgripsiwn am y brand Xaqua[®].
- Os ydych chi wedi bod yn cymryd brand arall o metolazone, bydd y tîm sy'n gofalu amdanoch yn penderfynu a yw'n briodol i chi newid i'r brand Xaqua[®]. Os byddwch yn newid, byddant yn monitro'r effaith y mae'r brand Xaqua[®] yn ei chael arnoch ac addasu'r dos os oes angen. Efallai y bydd angen profion gwaed ychwanegol a phrofion o'ch pwysedd gwaed a'ch pwysau pan fyddwch yn cael eich newid i Xaqua[®].
- Os nad ydych yn newid i Xaqua[®] bydd eich meddyg neu fferylllydd yn dweud wrthych pa frand o Metolazone rydych chi'n ei gymryd. Bydd eich presgripsiwn yn newid felly mae metolazone yn cael ei ragnodi gan y brand hwnnw.
- Oni bai bod eich meddyg yn dweud wrthych fel arall, mae'n bwysig aros ar yr un brand o metolazone bob amser.

Gwahaniaethau rhwng brandiau metolazone

Gall faint o gynhwysyn actif (metolazone) sy'n cyrraedd eich system ac sy'n cael effaith amrywio gyda gwahanol frandiau o metolazone. Efallai y gwelwch fod gan un brand o metolazone effaith 'gryfach' neu 'wannach' arnoch chi na brand arall hyd yn oed os ydych chi'n cymryd yr un dos.

Efallai bod gan wahanol frandiau o metolazone gynhwysion anweithredol gwahanol. Mae Xaqua[®] yn cynnwys lactos. Rhowch wybod i'r tîm sy'n gofalu amdanoch chi neu'ch fferylllydd os yw hyn yn broblem i chi.

Daw Xaqua[®] ond fel tabledi 5mg. Gellir torri'r rhain yn eu hanner ar hyd y llinell sgoriedig. Daw'r brandiau metolazone a fewnforiwyd fel 2.5mg, 5mg, neu gryfderau eraill o dabledi.

Gwybodaeth dosio

Mae dod o hyd i'r dos cywir o metolazone i chi yn bwysig.

Os ydych chi'n dechrau metolazone, byddwch yn dechrau ar ddos isel o'r brand Xaqua[®] a bydd eich dos yn cael ei addasu gan eich meddyg nes eich bod ar y dos sy'n gweithio i chi. Gall dod o hyd i'r dos cywir olygu bod angen i chi gymryd hanner tabled neu gymryd y dos bob yn ail ddiwrnod. Bydd eich meddyg neu'ch fferylllydd yn dweud wrthych beth yw'r dos cywir i chi.

Os ydych yn newid i Xaqua® o frand metolazone wedi'i fewnforio, byddwch fel arfer yn dechrau ar ddos is o Xaqua® a bydd eich dos yn cael ei addasu gan eich meddyg nes eich bod ar y dos cywir i chi. Mae hyn oherwydd na allai dosau cyfatebol o Xaqua® a brandiau Metolazone eraill o bosib gael yn cael yr un effaith arnoch chi.

Gwirio'ch meddyginiaethau

Oherwydd gall yr un dos o wahanol frandiau o metolazone effeithio arnoch chi'n wahanol, mae'n bwysig gwirio eich bod wedi cael y brand cywir o metolazone.

Bob tro y byddwch yn derbyn eich metolazone, gwiriwch fod yr enw brand ar y pecynnu yn cyfateb i'r enw brand a oedd ar eich presgripsiwn. Os nad y brand yw'r un yr oeddech yn disgwyl ei gael neu os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch fferylllydd neu'r sawl sy'n rhagnodi metolazone i chi. Mae'n bwysig nad ydych yn defnyddio brandiau gwahanol o metolazone ar yr un pryd.

Darllenwch yn ofalus y label ar eich meddyginiaethau bob amser i wneud yn siŵr eich bod yn cymryd y dos cywir i chi. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes angen i chi dorri eich tabledi i gael y dos cywir.

Pryd i ofyn am gyngor

Dywedwch wrth y tîm sy'n gofalu amdanoch os nad yw eich symptomau'n gwella, neu os ydych:

- yn pî-pî llai neu'n chwydu
- â cheg sych, poenau yn y cyhyrau neu grampiau, blinder yn y cyhyrau, oerfel, golwg aneglur, neu fod eich calon yn rasio
- teimlo'n llewyg, yn benysgafn neu'n benboeth, yn fyr eich gwynt, yn sychedig, yn aflonydd, yn wan, yn gysglyd, yn swrth, neu'n sâl
- yn sylwi bod pwysau eich gwaed yn isel os ydych yn defnyddio monitor pwysedd gwaed eich hun gartref
- ennill pwysau neu chwyddo gwaeth yn eich traed, fferau, coesau, dwylo neu freichiau
- Oes gennych unrhyw symptomau eraill rydych chi'n poeni amdanyn nhw.

Efallai y bydd angen addasu eich dos metolazone. Peidiwch â rhoi'r gorau i driniaeth heb drafod â'ch meddyg yn gyntaf.

Fel gyda phob meddyginiaeth, os byddwch yn profi unrhyw sgil effeithiau o'ch triniaeth, dylech roi gwybod i'ch meddyg, nyrs neu fferylllydd. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ap Cerdyn Melyn (i'w lawrlwytho o [Google Play](#) neu [Apple App Store](#)) neu'r [wefan](#) i roi gwybod am sgil effeithiau.

Cyngor pellach

Darllenwch y daflen wybodaeth i gleifion sy'n dod gyda'ch meddyginiaeth bob amser.

Os oes gennych ymholiadau pellach am metolazone, trafodwch y rhain gydag aelod o'ch tîm clinigol neu fferylllydd sy'n gallu rhoi cyngor i chi ar eich triniaeth.

Mae gan **wefan y GIG** a **Patient UK** ragor o wybodaeth am fethiant y galon, clefyd yr arennau a diwretigau thiazide.

Safle'r GIG:

<https://www.nhs.uk/conditions/heart-failure/>

<https://www.nhs.uk/conditions/kidney-disease/>

Patient UK: <https://patient.info/heart-health/high-blood-pressure-hypertension/thiazide-diuretics>

Mae'r daflen hon yn seiliedig ar waith blaenrol gan y Gwasanaeth Fferylliaeth Arbenigol (SPS)

This leaflet is also available in English Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.